Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Paul Orders
Cardiff County Borough Council
County Hall
Atlantic Wharf
Cardiff,
CF10 4UW

10 Awst 2015

Annwyl Mr Orders

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'ch ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau arfaethedig.

Mae'n dda gen i fod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a roddais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb. Mae'n dda gweld bod eich sefydliad yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol cyfagos a'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rydych chi wedi ariannu hyfforddiant sylfaenol yn Iaith Arwyddion Prydain i staff cartrefi gofal (Angen Gweithredu 2.2).

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod tri maes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chloriannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau yr wyf yn disgwyl eu gweld wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal. Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Caerdydd

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod fy mod i, ar y cyfan, yn siomedig ynglŷn â'i ymateb cychwynnol, ac o ganlyniad mae wedi rhoi rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r Anghenion Gweithredu. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi dweud ei fod wrthi'n gweithio tuag at ddulliau mwy cydweithredol â Chyngor Bro Morgannwg.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae nifer o gamau cadarnhaol wedi'u hamlinellu yn yr ymateb a ddylai helpu pobl hŷn i sicrhau eu hawliau a sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'w pryderon o dan rai amgylchiadau.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod eiriolaeth annibynnol yn cael ei chynnig pan fo cartref yn dod o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol', a bod yna gyfeiriad at Eiriolaeth Annibynnol Galluedd Meddyliol ynglŷn â hyn. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn ymrwymo i rannu materion gyda'r partneriaid i gyd, ac yn dangos dealltwriaeth o'r canlyniadau cadarnhaol y gall mynediad i eiriolaeth eu creu i bobl hŷn, a hynny o ran sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'w materion ond hefyd o ran ennill hyder eu bod yn gallu ymateb i faterion eu hunain. Da hefyd yw gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i adolygu ei drefniant

presennol yng ngoleuni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Serch hynny, ac er bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn dweud bod ei wasanaeth eiriolaeth yn ymateb i fwy na 400 o faterion mewn blwyddyn, heb wybod ym mha sefyllfaoedd y cafodd y cymorth hwn ei roi, mae'n amhosibl gwybod a gafodd yr unigolion eiriolaeth yn yr holl amgylchiadau sydd wedi'u nodi yn yr Angen Gweithredu. Gan hynny, nid yw'r wybodaeth a roddodd yr Awdurdod Lleol yn rhoi sicrwydd llawn imi y bydd eiriolaeth annibynnol yn cael ei rhoi i bobl hŷn pan fyddan nhw'n wynebu risg o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu'n profi camdriniaeth o'r fath - na phan fydd ar berson hŷn angen cymorth i'w helpu i ymadael â'r ysbyty. Heb eiriolaeth annibynnol ym mhob un o'r sefyllfaoedd sydd wedi'u hamlinellu yn yr Angen Gweithredu, mae pobl hŷn yn wynebu'r risg o fethu â chael gwrandawiad, neu fethu cael sylw i'w pryderon mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae nifer o gamau cadarnhaol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cymryd sydd â'r potensial i helpu pobl hŷn i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf ar ôl cyfnod o salwch.

Er enghraifft, mae'r ymateb yn dweud bod gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd ymagwedd amlddisgyblaeth ar lefel weithredol, ac mae'n ymrwymo i gydweithio'n agosach â'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys meddygon teulu a nyrsys ardal, er mwyn helpu pobl mewn cartrefi gofal. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ariannu hyfforddiant sylfaenol yn Iaith Arwyddion Prydain i staff cartrefi gofal a chymorth cyfathrebu er mwyn galluogi staff cartrefi gofal i roi gwell cymorth i bobl hŷn sydd â nam ar y synhwyrau. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn

gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu rhaglen hyfforddi ar y cyd i holl staff y Tîm Adnoddau Cymunedol er mwyn gwella ymwybyddiaeth a pherchnogaeth ynglŷn ag ail-alluogi, a chyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu hyfforddiant ail-alluogi dementia.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi enwi unigolyn i arwain y gwaith hwn, ac mae yna ddyddiad gweithredu clir ar gyfer hyfforddiant y Tîm Adnoddau Cymunedol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith yr hyfforddiant hwn gael ei fonitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol. Er hynny wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, byddwn yn disgwyl gweld lefel uwch o ymwybyddiaeth bendant o realiti mynediad pobl hŷn i'r gwasanaethau arbenigol ac amlddisgyblaeth ac o effaith y gwasanaethau hyn.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant mewn dementia ac mae'n cynnwys camau ac ymrwymiadau sydd â'r potensial i sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Er enghraifft, mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn bendant yn cydnabod mor bwysig yw hyfforddiant mewn dementia er mwyn sicrhau safonau uchel mewn gofal, a'i fod yn dweud ei fod yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Mae'r ymateb yn dweud bod dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi'n cael ei gynnal er mwyn adnabod anghenion hyfforddi eu staff, a bod hyfforddiant sylfaenol mewn dementia yn gwrs safonol yn y rhaglen hyfforddi.

Rwy'n croesawu'n arbennig waith yr Awdurdod Lleol ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol cyfagos i ddatblygu 'Cynllun Dementia Tair-blynedd Caerdydd a'r Fro' a fydd yn datblygu rhaglen hyfforddi mewn dementia ac yn lledaenu'r hyfforddiant priodol ar draws y cartrefi gofal. Mae hefyd yn dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi comisiynu hyfforddiant i reolwyr cartrefi gofal, a bod cwrs hyfforddi gofal dementia wedi'i lunio i ateb anghenion yr holl staff priodol. Er hynny, does dim rhagor o wybodaeth ynghylch pwy yw'r staff priodol ym marn yr Awdurdod Lleol, nac ymrwymiad pendant y bydd hyfforddiant sylfaenol ynghylch dementia yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl staff fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Er gwaethaf yr ymrwymiad amlwg i wella yn y maes hwn, a datganiad bod ymweliadau monitro contractau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod proses ymsefydlu briodol ar gael, does dim gwybodaeth wedi'i darparu ynghylch realiti'r mynediad i gyrsiau o'r fath na'r niferoedd sy'n manteisio arnyn nhw.

Mae'r ymateb yn dweud bod dull wedi'i ddatblygu i ddisgrifio'r cysylltiadau rhwng cymwyseddau'r staff ac ansawdd y gwasanaeth. Er hynny, does dim gwybodaeth wedi'i rhoi am sut mae gwaith goruchwylio ac asesiadau perfformiad yn uniongyrchol gyda staff a rheolwyr cartrefi gofal yn cael eu defnyddio i ddeall ac asesu eu sgiliau a'u cymwyseddau.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae nifer o gamau cadarnhaol wedi'u cynnwys yn ymateb yr Awdurdod Lleol sydd â'r potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth i arddel cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon a'u bod yn llai tebyg o fod yn unig ac ar wahân.

Er enghraifft, mae'r ymateb yn disgrifio cyflwyno technoleg er mwyn galluogi pobl hŷn i gyfathrebu â ffrindiau a pherthnasau nad ydyn nhw'n byw yn lleol, ac mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n datblygu 'Strategaeth Cyfleoedd Dydd i Bobl Hŷn' a fydd yn cynnwys defnyddio gwirfoddolwyr, cynlluniau cymunedol a chynlluniau ffydd. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i ddod o hyd i gymorth sy'n sensitif i ddiwylliant a chymorth wedi'i seilio ar ffydd sydd ar gael i bobl hŷn mewn cartrefi gofal, ac y bydd yn cynnwys mynediad i gymorth wedi'i seilio ar ffydd a'r cyfle i gadw cyfeillion yn y prosesau ar gyfer rheoli ac adolygu achosion.

Er hynny, mae'n rhaid imi nodi mai ymrwymiadau sy'n dal i gael eu datblygu yw'r rhain, ac y byddwn yn disgwyl i'r Strategaeth, ar ôl iddi gael ei datblygu'n llawn, gynnwys mynediad i gyfleoedd cyfeillio fel y maen nhw wedi'u disgrifio yn yr Angen Gweithredu, a hefyd i'r Awdurdod Lleol ddangos dealltwriaeth ddyfnach o effaith a manteision cyfeillio. Yn ychwanegol, byddwn yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol fynd ati maes o law i gynnal adolygiad o effaith cyflwyno technoleg.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn gan yr Awdurdod Lleol yn darparu rhywfaint o wybodaeth am sut mae'r Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth am ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Er enghraifft, bydd yr Awdurdod Lleol yn cael adborth o'r cynllun eiriolaeth, a chynhaliodd yr Awdurdod Lleol arolwg yn 2014 a arweiniodd at gymryd rhai camau i wella pethau, sef arolwg y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu ei ailadrodd yn fuan.

Er bod unrhyw ymgais i wrando ar brofiadau pobl hŷn i'w groesawu, rwy'n gofidio mai dulliau strwythuredig a ffurfiol yn unig o gael adborth yw'r rhain, ac mai golwg cyfyngedig yn unig y bydden nhw'n ei roi ar ansawdd bywyd pobl hŷn. Mae hynny'n golygu bod yna risg nad yw materion yn cael eu trin a'u trafod cyn iddyn nhw droi'n arwyddocaol, creu effaith a mynd yn ddrud i'w datrys.

Ar ben hynny, mae ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol yn dweud y bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag AGGCC a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu a gweithredu dulliau anffurfiol a systemataidd i sicrhau gwell dealltwriaeth o ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal, ac y bydd yn defnyddio adroddiadau blynyddol. Er hynny, does dim rhagor o wybodaeth na chynllun wedi'u darparu o ran sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud hyn. Gan hynny, ar y cyd â'm pryderon ynghylch dull ffurfiol presennol yr Awdurdod Lleol, alla i ddim bod yn gwbl sicr y bydd comisiynwyr, darparwyr ac arolygwyr yn casglu safbwyntiau pobl hŷn er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'u hansawdd bywyd mewn modd sy'n gallu sbarduno gwelliannau parhaus.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad clir i gyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol yn y modd sydd wedi'i amlinellu yn yr Angen Gweithredu. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi amlinellu'r ffynonellau a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth i'w chynnwys yn y DAB, sy'n cynnwys pobl hŷn eu hunain a'u teuluoedd. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn dangos dealltwriaeth o'r rhesymau dros gyhoeddi - sef er mwyn sicrhau bod gan bobl hŷn, teuluoedd a'r cyhoedd fynediad i wybodaeth gynhwysfawr a hwylus i'w defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus am y ddarpariaeth mewn cartrefi gofal.